**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Addysg

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 19 Ionawr 2023 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| A M Day | B Hopkins | Y V Jardine |
| S Joy | S E Keeton | J D McGettrick |
| F D O'Brien | A J O'Connor | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| Beth Allender | Elizabeth Lee | |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Robert Smith | Aelod y Cabinet dros Addysg a Sgiliau |
| Cressy Morgan | Swyddog Cyswllt Clwstwr Partneriaeth |
| Adrian Smith | Swyddog Cyswllt Clwstwr Partneriaeth |
| Andrew Owen | Pennaeth a gomisiynwyd |
| Kerina Hanson | Pennaeth a gomisiynwyd |
| Gareth Rees | Pennaeth Ysgol Gyfun Pontarddulais |
| Sue Bradshaw | Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Pontarddulais |
| Helen Talaat | Pennaeth Ysgol Gynradd Pengelli |
| Chris Scott | Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Pengelli |
| Alison Norman | Pennaeth Ysgol Gynradd Pontlliw |
| Sarah Burns | Pennaeth Ysgol Gynradd Penllergaer |
| Gareth Davies | Pennaeth Ysgol Gynradd Pontarddulais |
| Claire Bate | Dirprwy Bennaeth Ysgol Gynradd Llangyfelach |
| Michelle Kidwell | Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llangyfelach |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| David Thomas | Ymgynghorydd Gwelliant Ysgolion |
| Michelle Roberts | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): S M Jones

---

## 29 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Dim

## 30 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Dim

31 **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod ar 15 Rhagfyr 2023 gan y Panel.

32 **Llythyrau**

Derbyniodd y Panel y llythyr a anfonwyd at Aelod y Cabinet yn dilyn cyfarfod y Panel ar 15 Rhagfyr 2023.

33 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

34 **Sesiwn Craffu ar Ysgolion - Cynnydd gyda Chyflwyniad y Cwricwlwm Newydd i Gymru**

Roedd y panel yn falch o gwrdd â Phennaeth a Chadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Pontarddulais a phob un o'r ysgolion yng nghlwstwr yr ysgolion cynradd sy'n bwydo i mewn i'r ysgol gyfun, gan gynnwys ysgolion cynradd Pengelli, Pontlliw, Penllergaer, Pontarddulais a Llangyfelach. Roedd ganddynt ddiddordeb hefyd mewn clywed am y gefnogaeth a ddarparwyd i'r clwstwr gan y Gwasanaeth Gwella Ysgolion, y Penaethiaid a gomisiynwyd a Partneriaeth.

Roedd y panel yn awyddus i drafod â nhw sut roedd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei roi ar waith ar lawr gwlad a sut roedd y gwaith sy'n cael ei wneud ym mhob ysgol gynradd yn y clwstwr yn cael ei ddwyn ynghyd wrth i ddisgyblion bontio i'r ysgol gyfun.

Roedd gan y panel set o gwestiynau allweddol a drafodwyd â'r clwstwr, a oedd yn cynnwys:

a) Sut mae'n mynd hyd yn hyn?
b) Beth sydd fwyaf heriol?
c) Sut ydych chi'n cefnogi'ch athrawon a staff eich ysgol wrth newid i'r cwricwlwm newydd?
d) Sut ydych chi'n gweithio gyda'ch gilydd fel clwstwr i sicrhau ymagwedd gyson?
e) Sut ydych chi'n mynd â dysgwyr gyda chi ar y daith hon?
   Sut mae gwybodaeth am y cwricwlwm newydd yn cael ei rhannu â'r dysgwyr?
   Sut mae'r dysgwyr yn ymateb i'r cwricwlwm newydd, yn enwedig y rheini sydd wedi cael profiad o'r ddwy system?
f) Sut rydych chi'n teimlo am y gefnogaeth rydych chi wedi'i derbyn gan yr awdurdod lleol a Partneriaeth?

Roedd y panel yn falch o glywed yn uniongyrchol am sut roedd y clwstwr yn gweithio fel tîm, yn ogystal â gwrando ar eu llwyddiannau a'r materion roeddent yn eu hwynebu a sut roeddent yn cydweithio i oresgyn y rhain.

Roedd y panel yn ddiolchgar i'r tîm ym mhob ysgol am gymryd yr amser i ymuno â nhw a rhoddwyd diolch iddynt am eu brwdfrydedd ac am y gwaith gwych y maen nhw'n ei wneud.

Bydd y drafodaeth, syniadau'r panel o'r sesiwn ac unrhyw argymhellion yn ffurfio rhan o'r llythyr a fydd yn cael ei anfon at Aelod y Cabinet yn dilyn y cyfarfod.

35 **Cynllun Gwaith 2022 - 2023**

Cytunodd y panel i edrych ar Bresenoldeb Ysgol yn y flwyddyn ddinesig newydd. Cytunwyd ar y Rhaglen Waith.

36 **Er Gwybodaeth - Rhestr Deilliannau Arolygiadau Ysgolion Unigol Diweddar**

Nodwyd y rhestr canlyniadau arolygiadau ysgolion unigol gan y panel.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.20 pm

**Cadeirydd**